

**Dewisiadau Gofodol y CDLI - Fforwm Budd-ddeiliaid Allweddol**

Nodiadau'r cyfarfod - **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy - 12/10/16**

**Yn bresennol**

Colin Everett, y Prif Weithredwr

Andy Roberts, Rheolwr Gwasanaeth, Strategaeth

Elwyn Thomas - Cymorth Cynllunio Cymru

Swyddogion: Ste James, Adrian Walters, Sandie Lloyd, Vicky Weale, Glyn Jones, Eleanor Carpenter.

Tony Hughes - Gwasanaeth Cynghori ar y Cyd yr AHNE

Mike Pender (Anwyl Homes) a Mark Waite (Bloor Homes) - Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi

Carolyn Fleming a Catalina Peters – Airbus

Mike Moriarty - Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig

Lara Griffiths a Luci Duncalf - Cyngor Sir Ddinbych

Gill Smith - Gorllewin Caer a Chaer

Gerald Kitney - Grŵp Gweithredu 50+ (Sir y Fflint)

Steve Jackson - Coleg Cambria, Glannau Dyfrdwy

John Roberts - Cymdeithas Cerddwyr Cymru

Linda Sharp - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

David Harding - Cymdeithas Cynnyrch Mwynol

Andrew Frazer - Cyngor Metropolitan Cilgwri

Dewi Griffiths - Dŵr Cymru

Niall Waller - Adfywio Cyngor Sir y Fflint

**1. Rhagarweiniad**

Rhoddodd AR drosolwg o'r CDLI, gan gyfeirio at yr angen i nodi materion craidd y cynllun a phenderfynu ar swm y twf a dosbarthiad y twf hwnnw.

Cyflwynodd ET (Cymorth Cynllunio Cymru) drafodaeth ar 'gyd-destun' a 'rolau' a gofynnodd pam ein bod ni yma. Dywedodd fod arnom ni angen amrywiaeth o safbwyntiau o wahanol sectorau er mwyn ennill dealltwriaeth dda o'r materion yn y sir.

**Datblygu Cynaliadwy**

Mynegodd AR yr angen i'r cynllun fodloni gofynion datblygu cynaliadwy.

Cyflwynodd ET y drafodaeth ddilynol ar ddatblygu cynaliadwy. Darparodd y cyfranogwyr eu dealltwriaeth hwy o elfennau datblygu cynaliadwy:

- Mae'n rhaid i'r cynllun ddiogelu a datblygu tir, a chael y cydbwysedd hwnnw'n gywir
- Mae'n rhaid cael digon o dir ar gyfer tai er mwyn diwallu anghenion eang y gymdeithas
- Dylid adeiladu ar dir llwyd cyn safleoedd tir glas

- Mae Wrecsam a Sir y Fflint yn ganolbwynt ar gyfer twf economaidd, sydd wedi'i bwysleisio yn y Cynllun Economaidd Rhanbarthol, ac felly mae angen cynllun tai rhanbarthol hefyd

Grwpiodd ET y rhain dan dri 'maes' cynaliadwyedd, sef:

- Economi
- Cymuned
- Yr amgylchedd

Pwysleisiodd ET yr angen i roi sylw i hyn wrth baratoi'r cynllun.

Amlinellodd AR y cynnydd sydd wedi'i wneud gyda'r CDLI hyd yma; y Cytundeb Cyflawni, y Galw am Safleoedd Ymgeisiol, Negeseuon Allweddol a dewisiadau Hierarchaeth Anheddiad. Daethpwyd i'r casgliad ein bod ni wedi:

- Cytuno ar y weledigaeth, materion a'r amcanion
- Cytuno ar y negeseuon allweddol
- Cytuno ar yr hierarchaeth anheddiad 5 haen

Soniodd AR yn fras am y ffordd y cafodd y dewisiadau twf eu cyfrifo. Dewis 1 yn defnyddio ystadegau Llywodraeth Cymru, Dewisiadau 2 a 3 yn defnyddio ystadegau rhagolygon poblogaeth wedi'u cymryd o gyfnod o ddirwasgiad a Dewisiadau 4 a 5 yn defnyddio ystadegau o gyfnod o dwf economaidd. Roedd Dewis 6 yn 'ddull wedi'i deilwra o chwith' sy'n dechrau gyda ffigwr ar gyfer creu cyflogaeth ac yn defnyddio hwnnw i amcangyfrif faint o dai newydd sydd eu hangen i gefnogi'r ffigwr. Mae ystod o ddewisiadau wedi'u creu sy'n realistig ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

## **2. Gweithdy - Dewisiadau Twf**

Eglurodd ET y gweithdy i edrych ar y dewisiadau twf. Rhannwyd y cyfranogwyr yn grwpiau ar 5 bwrdd gyda Swyddogion Polisi i'w cynorthwyo i adolygu'r 6 dewis twf.

### **Adborth:**

Yn dilyn trafodaeth y gweithdy, adroddodd bob grŵp yn ôl ar y dewisiadau twf mwyaf priodol ac, yn olaf, pa ddewis yw'r dewis a ffefrir ganddynt. Roedd un grŵp yn teimlo bod dewisiadau 3, 4 a 6 yn realistig, gan ffafrio dewis 6. Adlewyrchwyd hyn yn adborth y grwpiau eraill, lle'r oedd dewisiadau 4 a 6 wedi'u nodi fel dewisiadau a ffefrir. Teimlodd y grwpiau mai'r ystod ganol oedd fwyaf tebygol a realistig, ac felly yn fwy cyflawnadwy a bod yr un ffigwr terfynol wedi'i gyfrifo mewn dwy ffordd wahanol.

### **Dewisiadau Twf a Ffefrir**

- Dewis 6 - 6,550 i 7,350 o gartrefi (440-490 o gartrefi'r flwyddyn)
- Dewis 4 - 6,600 cartref (440 cartref y flwyddyn)

## **3. Gweithdy - Dewisiadau Gofodol**

Soniodd AR yn fras bod 10 dewis gofodol wedi'u hystyried yn wreiddiol a bod y rheiny wedi'u cwtdogi i 5 dewis gofodol realistig:

- Dewis 1 - Dosbarthiad Cyfrannol
- Dewis 2 - Twf Trefol gyda Ffocws
- Dewis 3 - Ardal Dwf
- Dewis 4 - Canolfannau a Choridorau, ar hyd llwybrau cludiant
- Dewis 5 - Gwasgariad Cynaliadwy a Dull wedi'i Fireinio ar gyfer Aneddiadau Gwledig

Ceir map i ddarlunio pob dewis.

Hwylusodd ET weithdy i edrych ar y dewisiadau gofodol. Edrychodd bob bwrdd ar un dewis a gofynnwyd i'r cyfranogwyr ystyried manteision ac anfanteision pob dewis.

### **Adborth:**

Dewis 1 - Dosbarthiad Cyfrannol

- Manteision - gwasgaru'r budd, rhagnodol / penodol iawn (cynllunio drwy gyfrifo)
- Anfanteision - ddim yn gyflawnadwy, ddim wedi'i ysgogi gan ddatblygu cynaliadwy, lledaenu'r poen

Dewis 2 - Twf Trefol gyda Ffocws

- Manteision - alinio'n dda gyda'r cynllun cyflogaeth a'r isadeiledd presennol, cadw tirluniau wedi'u diogelu, system drafnidiaeth gynaliadwy, safleoedd tir llwyd
- Anfanteision - ni fydd yn cynnal aneddiadau llai nac yn cwrdd ag anghenion tai gwledig

Dewis 3 - Ardal Dwf

- Manteision - y dewis sy'n rhoi'r sylw mwyaf i ddatblygu cynaliadwy, trafndiaeth a seilwaith presennol
- Anfanteision - anhyblyg, hepgor trefi mawr y tu allan i'r ardal dwf, hepgor pentrefi gwledig bychain, llawer o bwysau

Dewis 4 - Canolfannau a Choridorau

- Manteision - rhywfaint o ddewis cymudo, a oes modd i'r cynllun alinio â'r strategaeth isadeiledd cenedlaethol?
- Anfanteision - rhy wasgarog, ddim wedi'i alinio â safleoedd cyflogaeth, anhyblyg ac onid yw'r coridorau'n orlawn?

Dewis 5 - Gwasgariad Cynaliadwy a Dull wedi'i Fireinio ar gyfer Aneddiadau Gwledig

- Manteision - alinio â'r rhaglen twf economaidd, yn ystyried amrywiaeth o aneddiadau, ystod o safleoedd tai, hyblyg, cyflawnadwy, potensial i gysylltu â Dewisiadau 5 a 4?
- Anfanteision - gall arwain at dwf anghytwys

Daeth AR â'r cyfarfod i ben drwy amlinellu camau nesaf yr ymarfer ymgynghori. Bydd Cynghorau Tref a Chymuned yn cwrdd ar 21, 24 a 25 Hydref a bydd arddangosfa gyhoeddus ym mhrif lyfrgelloedd y sir o 28 Hydref tan 9 Rhagfyr.

Diolchodd AR i bawb am eu cyfraniad a dywedodd y bydd yn anfon nodiadau'r cyfarfod at bawb.

